# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 5 Mawrth 2020**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.
(Tudalennau 1 - 40)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD |
|---|---|

7.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan Kate Jones**

Rwyf am ofyn beth y mae Cyngor Sir Powys yn ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd presennol mae ein planed yn dioddef?

Er enghraifft:

O ran ailgylchu – i le mae e’n mynd yn y pen draw?? A yw e’n cael ei ailgylchu i gyd mewn gwirionedd?

Gwastraff cyffredinol - sut mae tirlenwi'n ymdopi??

Ynni adnewyddadwy - a yw Powys yn buddsoddi mewn ffermydd gwynt, cynlluniau hydro (ry’n ni’n cael digon o law!), pympiau gwres o'r ddaear ac ati ...

A oes safonau eco penodol yn cael eu gosod ar bob adeilad newydd fel eu bod yn niwtral o ran carbon?

Pam mae ein harchfarchnadoedd ym Mhowys yn dal i ddefnyddio CYMAINT o blastig untro???

Pam mai dim ond llond dwrn o siopau 'ail-lenwi' sydd gennym?? Dylai pob archfarchnad roi'r dewis i ni ail-lenwi ein siampŵ, sebon dwylo, hylif golchi llestri, powdr golchi, powdr golchi llestri, pasta, reis, coffi ac ati (ac yn sgil hynny lleihau plastig)

Dewch mlan Powys dylai ein sir werdd ffrwythlon fod yn arwain y ffordd o ran newid yn yr hinsawdd i weddill Cymru a gweddill y DU.

Buddsoddwch fwy yn y diwydiant coedwigaeth. Mae angen plannu mwy o goed i amsugno mwy o $CO_2$ ac i gynhyrchu fwy o ocsigen. Mae gan Bowys yr arwynebedd. Dewch i ni fynd ati i blannu.

A ydych yn mynd i wneud yn siŵr bod newid yn yr hinsawdd a gwyddoniaeth amgylcheddol yn dod yn bwnc allweddol yn ein system addysg o'r cyfnod cyn ysgol i'r Brifysgol?
(Tudalennau 41 - 46)

7.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar fateiron yr Amgylchedd gan Ann Rooney Evans**

Beth fydd y Cyngor yn ei wneud i gychwyn a chefnogi treial yn y canolfannau ailgylchu sy'n caniatáu i breswylwyr gymryd unrhyw eitemau sy'n ddefnyddiol i'w ailddefnyddio, yn hytrach na'u gweld yn cael eu taflu i ffwrdd ar gyfer ailgylchu neu dirlenwi; gan ddilyn yr hierarchaeth o Leihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu?

Byddai hyn yn gam gwerthfawr tuag at economi gylchol, byddai'n helpu i normaleiddio'r arfer o gynnig pethau i'w hailddefnyddio yn hytrach na'u taflu i ffwrdd. Rwy'n cael fy syfrdanu a'm siomi gan y stwff da sy'n cael ei daflu i ffwrdd, ac y gellid ei ail-ddefnyddio. Mae'n rhaid bod staff y ganolfan ailgylchu yn teimlo'n rhwystredig iawn amdano hefyd. Gallech ofyn am roddion ar gyfer eitemau sy'n cael eu cymryd (gwirfoddol). Mae cynlluniau tebyg ar waith mewn mannau eraill sydd wedi goresgyn unrhyw heriau o ran iechyd a diogelwch, neu hyfforddi staff.

(Tudalennau 47 - 48)

7.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Amgylchedd gan Wendy Joss**

Cyhoeddodd y Prif Weinidog Boris Johnson yr wythnos diwethaf y byddai gwaharddiad ar geir tanwydd ffosil yn cael ei ddwyn ymlaen i 2035, bum mlynedd yn gynharach na'r disgwyl.

Sut y mae Cyngor Sir Powys yn bwriadu darparu pwyntiau gwefru niferus a dibynadwy ar gyfer ei breswylwyr a thwristiaid er mwyn gallu buddsoddi mewn cerbydau trydan newydd mewn da bryd ar gyfer 2035?

Dim ond 1.8 o bwyntiau gwefru cyhoeddus sydd ym mhob 100000 yng Nghymru.

(Tudalennau 49 - 50)

| 8. | PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2020/21 |
|---|---|

Cymeradwyo penderfyniad Treth y Cyngor a gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2020/2021.
(To Follow)

| 9. | ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2020/2021 GWELEDIGAETH 2025 EIN CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL GAN GYNNWYS EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024 |
|---|---|

Derbyn ac ystyried diweddariad 2020 Gweledigaeth 2025 Ein Cynllun Gwella Corfforaethol.

(Tudalennau 51 - 120)

| 10. | DATGANIAD POLISI CYFLOGAU |
|---|---|

Ystyried y Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer 2020/2021.
(Tudalennau 121 - 144)

| 11. | RHYBUDD O GYNNIG |
|---|---|

Yng ngoleuni'r ffaith bod Cyngor Sir Powys wedi talu bron i £4m yn y defnydd o orchmynion cau ceg; sy'n cael eu hadnabod yn dechnegol fel cytundebau cyfaddawdu neu setlo; rhwng 2005 i 2019; gyda 105 o gytundebau peidio â datgelu; mae'r Cyngor yn galw i bob cytundeb o'r fath a thaliadau dros 5k i gael eu cymeradwyo gan aelod o'r Cabinet gydag adroddiad chwarterol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, gan sicrhau didwylledd a thryloywder.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies

| 12. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

12.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir David Selby**

A all yr Aelod Portffolio gadarnhau bod y cyn brif ffordd drwy'r Drenewydd (A483) bellach wedi'i hisraddio'n swyddogol, ac felly cadarnhau pa waith sydd bellach ar y gweill ar ffordd Llanidloes i wella wyneb y ffordd a diogelwch ar gyfer cerddwyr a beicwyr?

(To Follow)

12.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu ac Ymgysylltu Corfforaethol gan y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

A all yr Aelod Cabinet roi gwybod i mi ac i aelodau eraill, cyfanswm nifer y cytundebau peidio â datgelu (NDA) sydd wedi cael eu gwneud gan Gyngor Powys yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf hyd at y dyddiad cyfredol, gan gynnwys y gost ariannol. A ellir rhestru pob blwyddyn ar wahân? A ellir rhoi cyfanswm y gost ariannol am N D A ar gyfer pob blwyddyn?
(To Follow)

12.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol Oedolion gan y Cynghorydd Sir Francesca Jump**

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r adroddiadau diweddar yn y wasg mewn

perthynas â'r anawsterau mewn rhai rhannau o Bowys o ran darparu adnoddau ar gyfer gofal yn y cartref i bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth. A all y deilydd portffolio ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion roi gwybod i'r cyngor beth yw'r sefyllfa bresennol o ran pobl sy'n aros am wasanaethau; faint o bobl sy'n aros am ofal yn y cartref ar hyn o bryd heb gymorth? Ar gyfartaledd pa mor hir mae'n rhaid i bobl aros am ofal yn y catref a pa mor hir yw'r aros hiraf? Hefyd, a all deilydd y portffolio roi gwybod i'r cyngor beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn?

(Tudalennau 145 - 148)